# Y Cwricwlwm i Gymru –
# Cod drafft Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**


Eich enw: Hywel Iorwerth

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

e-bost/rhif ffôn: 03456033221

Eich cyfeiriad: hywel.iorwerth@cyg-wlc.cymru


Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 16 Gorffennaf 2021 i:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru

**Math o ymatebydd** (dewiswch un o'r canlynol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plentyn neu berson ifanc | ☐ | Cyflogwr/cynrychiolydd busnes | ☐ |
| Rhiant/gofalwr | ☐ | Corff proffesiynol/grŵp buddiant | ☐ |
| Llywodraethwr ysgol neu aelod o bwyllgor rheoli ysgol | ☐ | Y sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, gwirfoddolwr, grŵp hunangymorth, menter gymdeithasol neu gydweithredol, sefydliad crefyddol, sefydliad nid er elw) | ☐ |
| Ymarferydd ysgol brif ffrwd (pennaeth, athro, cynorthwyydd addysgu ac ati) | ☐ | Consortiwm rhanbarthol | ☐ |
| Darparwr addysg heblaw yn yr ysgol (staff uned cyfeirio disgyblion, staff ysgolion annibynnol, darparwr arall ac ati) | ☐ | Awdurdod lleol | ☐ |
| Addysg uwch (gan gynnwys prifysgolion/sefydliadau academaidd) | ☐ | Addysg bellach | ☐ |
| Gwleidydd (aelod o'r Senedd, cynghorydd sir, aelod o Senedd y DU ac ati) | ☐ | Grŵp arall sy'n ymateb nad yw wedi'i restru uchod – nodwch enw'r grŵp: | ✓ |
| Lobïwr | ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud | ☐ |

A ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu ar ran ysgol, lleoliad neu sefydliad?

| | |
|---|---|
| ☐ | Fel unigolyn |
| ✓ | Ar ran ysgol/lleoliad/sefydliad |

**Cwestiwn 1** – Mewn ymateb i adborth ar ganllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru yn 2019 mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn orfodol drwy ddatblygiad y Cod hwn. A yw'r 27 datganiad fel y'u mireiniwyd drwy'r Cod drafft hwn yn crynhoi'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc gydol y continwwm ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ydyn** | ☐ | **Nac ydyn** | ✓ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gweler ein hymateb i gwestiwn 4. |

**Cwestiwn 2** – Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig fydd y prif strwythurau ar gyfer rhoi trefn ar y cwricwlwm ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad. A yw'r datganiadau diwygiedig yn glir ac yn hawdd eu deall, gan ddarparu dealltwriaeth o ehangder datblygu'r cwricwlwm?

| **Ydyn** | ☐ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3** – Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wedi'u mireinio ar ôl ystyried materion fel rhan o basio deddfwriaeth gysylltiedig drwy'r Senedd yn 2020/21.

**3a** - A yw'r diwygiadau i'r datganiadau mewn perthynas ag amrywiaeth a hanes Cymru yn ddigon clir?

| |
|---|
| |

**3b** – A yw'r diwygiadau i'r datganiadau mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd yn ddigon clir?

| |
|---|
| |

**3c** – A yw'r diwygiadau i'r datganiadau yn ddigon clir i sicrhau perthnasedd i'r ystod lawn o ieithoedd y gall dysgwyr ddod ar eu traws?

| |
|---|
| Na, gweler ein hymateb i gwestiwn 4. |

**Cwestiwn 4** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Er ein bod yn deall rhesymeg disodli cyfeiriadau penodol at 'Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol' yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig gan gyfeiriadau at 'luosieithog', nid ydym yn cytuno â'r cynnig. Rydym yn cefnogi'n llwyr egwyddorion a phwysigrwydd amlieithrwydd, a deallwn fod cyfeirio at hynny yn bwysig o fewn y cwricwlwm newydd. Er hyn, nid yw'n glir pam fod rhaid i hyn olygu na ddylid cyfeirio at y Gymraeg a'r Saesneg yn benodol yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Mae hwn yn gwricwlwm i Gymru, ac felly byddai disgwyl i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig gyfeirio'n benodol at ddwy iaith fwyaf Cymru, y Gymraeg a'r Saesneg, a hynny o fewn cyd-destun ehangach lluosieithrwydd/amlieithrwydd. Mae gweddill y cwricwlwm yn adlewyrchu'r ffaith fod dwy iaith fwyaf Cymru yn cael sylw penodol, ac felly byddai'n gwneud synnwyr o safbwynt cysondeb ac eglurder fod y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cyfeirio at y Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal. Mae hefyd peryg drwy beidio gyfeirio at y Gymraeg yma, bod colli cyfle i egluro bod Cymru yn wlad ddwyieithog, ac mai nid Saesneg yw iaith di-ofyn addysg yng Nghymru.

Os nad yw'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn cyfeirio at y Gymraeg ar Saesneg yna nid ydym yn siŵr i ba raddau mae'n gyson â gweddill gofynion y cwricwlwm. Teimlwn ei fod yn briodol i'r datganiadau hyn gyfeirio at y nod o Gymru gynyddol ddwyieithog, ac adlewyrchu bod y disgwyliadau mewn perthynas â'r Gymraeg a'r Saesneg yn wahanol i ieithoedd eraill. Dyma wrth gwrs, sy'n nodweddu'r ffaith mai cwricwlwm i Gymru yw hon, ac nid cwricwlwm i unrhyw wlad arall. Pwysleisiwn nad yw cyfeirio at y Gymraeg a'r Saesneg yn tanseilio pwysigrwydd yr egwyddor o amlieithrwydd, na lle amlwg hynny yn y cwricwlwm newydd.

**Cwestiwn 5** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig arfaethedig:

i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 6** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐